## Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg sy'n Ffynnu

**Lle sy'n hyrwyddo ac amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobol i fod ynghlwm wrth y celfyddydau a chwaraeon a hamdden.**

### Sefyllfa a gweithredoedd cyfredol

Mae cymunedau yn ymdrechu i greu'r syniad o ofal i'r lle a'i gilydd trwy weithredu gwirfoddol ar y cyd. Mae pwysau bywyd modern yn golygu fod dpd o hyd i amser i fod yn rhan o'r gymuned leol a chefnogi ei datblygiad cyfunol anodd. Mae actifyddion lleol yn cwyno am y diffyg perchnogaeth cymuned ehangach o faterion lleol a gweithredu i fynd i'r afael â nhw.

Er bod lleihad sylweddol wedi bod yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn ystod y degawdau diwethaf, mae yna nifer fawr o bobol sy'n deall peth Cymraeg mewn dull goddefol ond fyddai'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnig her i'w hannog hwy i newid y wybodaeth oddefol honno yn ddefnydd gweithredol beth bynnag fo eu gallu. Gall adeiladu ar lwyddiant cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2014 a arweiniodd at hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym musnesau a gweithleoedd canol y dref gael ei ymestyn allan i'r ardaloedd mwy gwledig.

### Ymyriadau arfaethedig

**Rhaglen Credydau Amser** - Archwilio potensial ehangu'r Rhaglen Credydau Amser yn wardiau'r ardal Wledig - cynyddu nifer y gwirfoddolwyr i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol yn gyfnewid am ostyngiadau wrth ddefnyddio cyfleusterau canol y dref e.e, Partneriaeth Tref Llanelli - prosiect cyfeillion stryd- dull ased i ddatblygiad cymuned leol micro.

**Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg-** Defnydd strwythuredig gyda ffocws arbennig ar yr iaith Gymraeg wrth weithredu cynllun y lle cyfan.

Defnyddio neuaddau/hwb cymunedol i wella dysgu ac arfer yr iaith.

Recriwtio gweithredol gwirfoddolwyr Cymraeg i gyflwyno ymyriadau'r cynllun e.e. rhwydwaith siopau'r gymuned, bydis stryd, gwybodaeth am fysiau.

**Partneriaid** – Cyngor Sir Caerfyrddin, Spice,Cyngor Tref Llanelli, Ardal Gwella Busnesau Llanelli, Menter Cwm Gwendraeth Elli, ysgolion cynradd (Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Ffwrnes, Ysgol Brynsierfel) ac Ysgol Gyfun y Strade-Ysgol Uwchradd.

**Mesuriadau cynnydd** – Gwell defnydd o'r iaith a chynnydd mewn gwirfoddoli.

**Blaenoriaethau Lleol** – Mentrau Credydau Amser mewn ardaloedd newydd, ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg.